# Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg - Taflen Ffeithiau

## Mae Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg yn bwysig ar gyfer datblygiad plentyn

Mae '**siarad**' a '**dechrau siarad**' yn helpu plant bach i wneud ffrindiau, i ddarllen ac i wneud yn dda yn yr ysgol.

Mae siarad â phlant bach ac ymateb iddynt yn eu helpu i **ddeall a dysgu** mwy.





## Gallwch gael Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg unrhyw le, ar unrhyw adeg

Gallwch roi **cymorth** gyda 'siarad' a 'dechrau siarad' yn y cartref, mewn lleoliad gofal plant, yn y siopau, ar y bws, yn y car etc.

Mae syniadau i **helpu** gyda 'siarad' a 'dechrau siarad' ym mhecyn "**Dechrau Siarad**" Dechrau'n Deg ar gyfer rhieni.



## Mae Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg ar gael i holl blant Dechrau'n Deg

Mae cymorth gyda 'siarad' a 'dechrau siarad' ar gael i **bob** plentyn bach drwy Dechrau'n Deg.

Mae'r cyfnod rhwng **genedigaeth a thair oed** yn gyfnod pwysig o ran sgiliau siarad plant bach.

## Manteision Cymorth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Dechrau'n Deg

Mae canu gyda phlant bach yn eu helpu i ddysgu ac adnabod **sŵn lleisiau eu rhieni**.

Mae darllen gyda phlant bach yn eu helpu i ddysgu **geiriau newydd a meithrin perthynas**.



OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG29235